

Anghenion Dysgu Ychwanegol Canllaw Gwybodaeth ADY



Cyflwyniad



Dechreuodd system newydd ar gyfer cynorthwyo pobl ifanc 16-25 oed sydd ag anghenion ychwanegol mewn colegau o fis Medi 2023 gyda chyflwyniad y term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Ar gyfer y mwyafrif o bobl ifanc, gellir bodloni eu hanghenion trwy addysgu a dysgu o ansawdd uchel a darpariaeth gyffredinol. Mae Coleg Cambria wedi bod yn gweithio'n galed dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i roi addysgu a chymorth gwahaniaethol ar waith i helpu pob dysgwr i wneud cynnydd ac mae gan y Coleg ystod eang o wasanaethau cymorth cyffredinol h.y. darpariaeth sydd fel arfer ar gael i bawb. Ar gyfer nifer fach iawn o bobl ifanc, ni fydd darpariaeth gyffredinol yn ddigon i fodloni eu hanghenion cymhleth a bydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY) arnynt. Mae DDY yn wahanol neu'n ychwanegol at y ddarpariaeth sydd ar gael yn gyffredinol i bawb.


Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae gan berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddynt anhawster dysgu neu anabledd (boed yr anhawster dysgu neu anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Mae'n bwysig cofio bod pobl ifanc yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, a gall eu hanghenion newid dros amser. Gallai cymorth gael ei gynyddu, ei leihau neu ei newid dros amser yn unol â chynnydd unigol a bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae Ysgolion a Cholegau hefyd yn cynnig gwahanol fathau o ddarpariaeth ac yn gyffredinol gallai'r hyn a ystyriwyd yn ddarpariaeth ychwanegol yn yr ysgol fod ar gael i bawb yn y Coleg.



Proses Coleg Cambria ar gyfer Nodi a Chefnogi ADY (Fersiwn Hawdd ei Darllen)



35 diwrnod yn ystod y tymor

Gweler Atodiad 1 am esboniad mwy cynhwysfawr o'r Broses ADY

Darpariaeth Gyffredinol ac Ychwanegol

Darpariaeth Gyffredinol yw'r enw a roddir ar ddarpariaeth sydd ar gael fel mater o drefn i bob person ifanc a gellir ei darparu ar lefel dosbarth cyfan, grŵp bach neu lefel unigol.

Mae Darpariaeth Dysgu Ychwanegol yn ddarpariaeth well neu bwrpasol sydd wedi'i nodi mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gynorthwyo'r person ifanc i wneud cynnydd. Mae pobl ifanc sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael eu hystyried fel rhai ag ADY ac felly yn cael cynnig Cynllun Datblygu Unigol.



Cynllun Datblygu Unigol

Mae Cynllun Datblygu Unigol (CDU) wedi disodli Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig a Chynlluniau Sgiliau Dysgu. Bydd y cynlluniau newydd hyn yn canolbwyntio ar yr unigolyn a gallant gynnwys asiantaethau eraill megis gweithwyr iechyd proffesiynol a sefydliadau trydydd sector. Y newid mwyaf arwyddocaol i bobl ifanc yw y byddant yn ganolog i gynllunio eu darpariaeth.

Bydd CDU yn cael eu hadolygu unwaith y flwyddyn o leiaf ac yn cael eu creu a'u hadolygu gyda'r person ifanc a gyda'u caniatâd, eu rhiant/gofalwr neu eiriolwr. Gall y Coleg, pobl ifanc a chyrrff y GIG ofyn am adolygiad unrhyw bryd os ydynt yn teimlo bod gwybodaeth neu anghenion wedi newid.

Mae CDU wedi'u cynllunio i amlinellu ADY person ifanc, eu dyheadau mewn perthynas â gwaith, bywyd a chymuned a chanlyniadau i gyflawni'r rhain. Mae angen CDU ar unrhyw berson ifanc sy'n cael darpariaeth ddysgu ychwanegol. Bydd y mwyafrif o'r rhain yn cael eu hysgrifennu a'u cynnal gan ysgolion a cholegau ond efallai y bydd rhai achosion mwy cymhleth yn cael eu hysgrifennu gan yr Awdurdod Lleol.



Dulliau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Mae dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ganolog i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgol a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru. Maent yn ymwneud â rhoi'r person ifanc wrth wraidd y gwaith o nodi anghenion, cynllunio eu darpariaeth ac adolygu hyn.

Mae sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y gwaith o nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt ac ar eu cyfer, wrth gynllunio eu darpariaeth ac wrth amlinellu eu gobeithion a'u dyheadau, gan egluro sut y maent yn dymuno gwireddu'r rhain i gyd yn rhan o ethos eang i arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd adolygiadau o CDU yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Rhagor o wybodaeth a chyingor am ADY a'r system ADY

Mae rhagor o wybodaeth a chyingor am ADY ar gael ar wefan y Coleg. Gall Maria Giannasi, Rheolwr ADY y Coleg ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych hefyd.

Gallwch gysylltu drwy ffonio 07542 230646 neu anfon e-bost at maria.giannasi@cambria.ac.uk

Gallwch hefyd gysylltu â'ch Awdurdod Lleol hefyd i gael rhagor o wybodaeth a chyingor am ADY a'r system ADY.

Awdurdod Lleol	E-bost	Gwefan
Sir Ddinbych	aln@denbighshire.gov.uk	https://www.denbighshire.gov.uk/cy/addysg-ac-ysgolion/anghenion-dysgu-ychwanegol/trosolwg.aspx
Sir y Fflint	aln@flintshire.gov.uk	https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/Children--Young-People-with-Additional-Learning-Needs.aspx
Wrecsam	ALN@wrexham.gov.uk	https://www.wrecsam.gov.uk/service/rhagor-o-wybodaeth-am-addysg/cefnogi-disgyblion-gydag-anghenion-dysgu-ychwanegol

Cyngor Annibynnol ac Eiriolaeth

Beth i'w wneud os ydych yn anhapus gyda phenderfyniad ADY

Os ydych yn anhapus gydag unrhyw benderfyniad o ran ADY cysylltwch â Rheolwr ADY y Coleg, Maria Giannasi drwy ffonio **07542 230646** neu anfon e-bost at **maria.giannasi@cambria.ac.uk**.

Bydd yn gweithio gyda chi i ddatrys unrhyw bryderon a godwch ynghylch ystyried ADY.

Eiriolaeth a Datrys Anghydfod

Os ydych yn byw yn Siroedd Dinbych, Fflint neu Wrecsam ac rydych eisiau cyngor, arweiniad a chymorth annibynnol, gallwch gysylltu â Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol, a ddarperir gan **SNAP Cymru**. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cymorth am ddim i bobl ifanc sydd ag ADY neu sydd efallai gydag ADY, gan gynnwys datrys anghydfod ac eiriolaeth ar sail materion ADY. Gallwch ddarganfod rhagor am SNAP Cymru ar <https://www.snapcymru.org>.

Gallwch gysylltu â SNAP Cymru drwy'r llinell gymorth ar **0808 801 0608** neu drwy gwblhau ffurflen ymholiad ar <https://www.snapcymru.org/contact>

Apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru

Os ydych yn anhapus gyda phenderfyniad a wnaed am ADY, mae gennych yr hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru. Maent yn gwneud penderfyniadau ar apeliadau am anghenion dysgu ychwanegol. Mae gwybodaeth ynghylch pryd a sut y gallwch wneud apêl ar gael ar eu gwefan: <https://tribiwnlysaddysg.llyw.cymru/>

Rhaid cyflwyno apeliadau o fewn 8 wythnos i ddyddiad gwneud y penderfyniad. Ond os defnyddir gwasanaethau datrys anghydfod, caiff yr amserlen ar gyfer apelio ei hymestyn wyth wythnos arall.




Dolenni defnyddiol



Eitem	Disgrifiad	Dolen/Ileoliad
Deddf ADY	Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018	https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents
Cod ADY	Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol.	https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-04/220622-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021%20%282%29.pdf
Amserlenni ADY	Gwybodaeth ynghylch pa bryd y bydd pobl ifanc yn symud i'r system ADY.	https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-03/gwybodaeth-ynghylch-pa-bryd-y-bydd-pobl-ifanc-yn-symud-ir-system-anghenion-dysgu-ychwanegol.pdf
Braenaru ADY	Gwefan wedi'i dylunio i helpu pobl ifanc ag ADY a'u teuluoedd i wneud dewisiadau gwybodus a chynllunio eu camau nesaf.	https://www.braenaruady.cymru/?_locale=cy
System ADY	Gwybodaeth i bobl ifanc sy'n symud ymlaen i'r system anghenion dysgu ychwanegol.	https://www.llyw.cymru/system-anghenion-dysgu-ychwanegol-ady-canllaw-pobl-ifanc
Fideo Deddf ADY	Animeiddiad yn esbonio'r system ADY newydd i rieni a phobl ifanc.	https://www.youtube.com/watch?v=RGcz5c23Cag
SNAP Cymru	Gwefan sy'n darparu llawer o wybodaeth am y system ADY newydd a sut y gallant gynorthwyo plant, pobl ifanc a rhieni.	https://www.snapcymru.org/?lang=cy

Atodiad 1: Proses ADY Coleg Cambria



Pennod 16 - Cod ADY

35 diwrnod yn ystod y tymor